



**CYFARFOD PWYLLGOR GWEITHREDOL Y GANGEN  
23 Mai 2023**

**COFNODION DRAFFT**

Yn bresennol

Rhun ap Iorwerth AS, Cadeirydd  
David Rees AS (Is-lywydd)  
Alun Davies AS  
Rhianon Passmore AS  
Natasha Asghar AS  
Sam Rowlands AS

Ysgrifenyddiaeth

Al Davies, Ysgrifennydd Dros Dro y Gangen  
Ein Sutton, Swyddfa Breifat y Llywydd

**Cyflwyniad a newyddion staffio.**

Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod ac eglurodd, am nifer o resymau, y bu'n sawl mis yn hwy nag arfer ers ein cyfarfod diwethaf.

Nododd y Cadeirydd, er budd yr Aelodau oedd efallai ddim yn gwybod, y gadawodd Enfys Roberts y Senedd ym mis Mawrth. Roedd y Gangen yn ddiolchgar i Enfys am ei chefnogaeth – yn enwedig gyda'r rhwydweithiau CWP ac anabledd dros y pum mlynedd diwethaf.

Croesawyd Elin Sutton o Swyddfa Breifat y Llywydd. Byddai Elin yn cefnogi peth o waith CPA y Gangen, yn enwedig gyda'r CWP.

1. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Cafwyd ymddiheuriadau gan Delyth Jewell AS.

2. **COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** - Papur CPA 6S-22-03 (**DOGFEN 1**)

Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir.

3. **MATERION SY’N CODI O’R COFNODION**

Gofynnwyd i Ysgrifenyddiaeth y Gangen baratoi papur ar yr opsiwn ffioedd CPA newydd (a drafodir o dan eitem 6)

4. **ADOLYGIAD O WEITHGAREDDAU DIWEDDAR**

**Adborth ar gyfarfodydd, ymweliadau, digwyddiadau a chynadleddau diweddar a chamau dilynol**

2022

- *Pwyllgor Llywio BIMR CWP  
Rhithwir  
14 Tachwedd*

Trafodwyd nifer o faterion, gan gynnwys archwiliadau sensitif i rywedd o fewn deddfwrfeydd y rhanbarth, yn ogystal â chynigion ar gyfer ymweliad rhanbarthol â Malta yn yr Hydref, a phresenoldeb yn Fforwm Byd-eang Reykjavik.

- *11eg Senedd Ieuencid y Gymanwlad  
Trinidad a Tobago  
20–24 Tachwedd (**DOC 2**)*

Dosbarthwyd adroddiad gan gyn-Aelodau Senedd Ieuencid Cymru, Betsan Angell Roberts a Gwion Rhisiart, a ddewiswyd i gynrychioli'r Senedd yn y Senedd Ieuencid y Gymanwlad y llynedd yn Trinidad.

Nododd y Cadeirydd ddiolchiadau'r Gangen i Betsan a Gwion.

## 2023

- *Ymweliad gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus St Helena  
2 Chwefror*

Roedd aelodau o Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus St Helena wedi ymweld â'r Senedd fel rhan o'u hymweliad ehangach â'r DU ac wedi cynnal rhaglen gynhwysfawr gyda'n Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ni.

- *CPA y DU – Gweithdy Masnach ar gyfer Tiriogaethau Tramor,  
Tiriogaethau Dibynnol y Goron a'r Deddfwrfeydd Datganoledig.  
(DOC 3)  
San Steffan  
7-9 Chwefror*

Cymerodd Alun Davies AS ran yn y rhaglen hon a diolchodd y Gangen iddo am ei adroddiad o'r gweithdy, a oedd wedi'i ddsbarthu.

- *71<sup>fed</sup> Seminar San Steffan  
13-17 Mawrth (DOC 4)*

Roedd Peredur Owen Griffiths AS (yn ogystal ag un o glercod y Senedd) yn bresennol yn Seminar San Steffan eleni. Cafwyd adborth cadarnhaol gan Peredur o'i brofiad yn y Seminar.

Nodyn: Mae adroddiad swyddogol o Seminar San Steffan bellach ar gael ar dudalen we CPA y Senedd.

- *Cynhadledd BIMR (a gynhaliwyd gan CPA UK)  
San Steffan  
25-27 Ebrill*

Nododd y Cadeirydd ei fod ef, ynghyd ag Is-lywydd y Gangen, Rhianon Passmore AS a Joyce Watson AS, wedi bod yn y Gynhadledd Ranbarthol eleni, a gynhaliwyd gan Senedd y DU yn San Steffan.

Nodyn: Mae adroddiad swyddogol o'r Gynhadledd BIMR bellach ar gael ar dudalen we CPA y Senedd.

- *Cenhadaeth Sylwedydd Etholiad BIMR i Ynysoedd Prydain y Wryf 17-26 Ebrill.*

Yn anffodus ni fu'n bosibl i unrhyw un o'r Aelodau Cangen â hyfforddiant mewn Cenhadaeth Sylwedyddion Etholiad fynd i'r etholiad penodol hwn yn Ynysoedd Prydain y Wryf.

Ni chadarnhawyd unrhyw gyfleoedd pellach am genhadaeth o'r fath ar hyn o bryd ond byddai Ysgrifenyddiaeth y Gangen yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau.

## 5. **BLAENGYNLLUNIO**

### **Cyfarfodydd, ymweliadau, digwyddiadau a chynadleddau arfaethedig**

2023

- Uwchgynhadledd Arweinwyr Gwleidyddol benywaidd  
Brwsel  
7-8 Mehefin

Hysbyswyd ein cynrychiolwyr ar Bwyllgor Llywio BIMR CWP am y cyfle hwn i gymryd rhan yn nirprwyaeth y Rhanbarth i Uwchgynhadledd WPL ym Mrwsel.

Nodyn: Dewiswyd Rhianon Passmore AS fel un o gyfranogwyr y BIMR a rhoddodd adborth ar ei phrofiad i BIMR CWP.

- *Ymweliad gan Ysgrifennydd Cyffredinol CPA, Stephen Twigg  
20 Mehefin*

Nododd y Cadeirydd fod ymweliad Ysgrifennydd Cyffredinol CPA â'r Senedd wedi'i gadarnhau a bod rhaglen addas yn cael ei datblygu.

Cafodd aelodau Pwyllgor Gwaith y Gangen sicrwydd y byddent yn cael eu cynnwys yn rhaglen yr Ysgrifennydd Cyffredinol.

- *CPA y DU - Gweithdy Menywod mewn Masnach  
San Steffan  
20-22 Mehefin*

Er gwaethaf peth diddordeb cychwynnol gan fenywod sy'n Aelodau o'r Senedd, ni chafwyd unrhyw geisiadau pendant i fynychu'r gweithdy masnach hwn.

- *Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad  
Accra, Ghana  
30 Medi – 5 Hydref*

Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Aelodau fod y Gangen yn disgwyl gwahoddiad swyddogol i'r gynhadledd eleni ym mis Mehefin. Yn ogystal â'n hawl arferol i anfon cynrychiolwyr, roeddem yn disgwyl gallu ychwanegu at hyn gyda lle ychwanegol i arsylwr ychwanegol

Byddai nodyn i holl Aelodau'r Senedd yn gwahodd datganiadau o ddiddordeb ac achosion busnes yn cael ei gyhoeddi, a'n dirprwyaeth yn cael ei dewis cyn toriad yr haf.

- *Ymweliad BIMR CWP  
Malta  
Tachwedd (i'w gadarnhau)*

Fel y nodwyd yn flaenorol, roedd ymweliad CWP posibl i Aelodau Pwyllgor Llywio BIMR wedi'i gynllunio ar gyfer yr hydref.

## 6. **EITEMAU NEWYDD / UNRHYW FATER ARALL**

- Opsiynau Ffi Aelodaeth CPA (**DOC 5**)

Trafododd yr Aelodau y papur ar opsiynau aelodaeth y Gangen, a oedd yn cynnwys dewis newydd i dalu ffi uwch am gyfranogiad uwch yng nghynadleddau blynyddol y CPA.

Roedd yr aelodau'n cytuno bod y trefniant presennol ar y ffi aelodaeth isaf, sy'n cynnig hawl i un cynrychiolydd yn y CPC blynyddol, yn ddigonol; a bod yr opsiwn o ategu ein cyfranogiad mewn cynadleddau gydag arsylwydd yn gweddu i'n dibenion presennol ac yn rhoi'r gwerth gorau am arian.

7. **DYDDIADAU CYFARFODYDD YN Y DYFODOL:**

Cyfarfod Pwyllgor Gwaith y Gangen - Medi 2023 (i'w gadarnhau)

**DIWEDD**